# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Hydref 2015

Amser: 08.30 - 08.52

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Dosbarthodd y Gweinidog amserlen dair wythnos ddiwygiedig, gan gynnwys dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) dydd Mawrth 20 Hydref.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 11 Tachwedd 2015**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Menter

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Menter.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i'r Pwyllgor Menter a Busnes er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn dydd Iau 26 Tachwedd 2015, er mwyn gallu trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 1 Rhagfyr 2015.

# 5 Cyfarfod Llawn

## 5.1 Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad

Yn y cyfarfod ar 29 Medi gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur ychwanegol gydag opsiynau pellach ar y posibilrwydd o gyflwyno Cwestiynau Amserol yn nhrafodion y Cynulliad.

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y papur ac fe'u gwahoddwyd i ymgynghori â'u Grwpiau Plaid ar y gwahanol opsiynau a amlinellir yn Atodiad A y papur a dychwelyd at y mater ar 3 Tachwedd 2015.